

Cyngor Dinas Casnewydd: Gwasanaethau Addysg

Fforwm Derbyniadau Ysgol

Cofnodion y Cyfarfod



Dyddiad: 22 Mehefin 2021

Yn bresennol: Yr Esgobaeth Gatholig (Yn y Gadair)
Rheolwr Gwasanaeth CDC
Rheolwr Derbyniadau ac Apeliadau CDC
Cynrychiolydd Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GALIEG))
Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog
Aelod Etholedig CDC
Cynrychiolydd Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr
Aelod Etholedig CDC
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr
Cynrychiolydd Plant sy'n Derbyn Gofal (dim pleidlais)
Ymgynghorydd ar gyfer Ymddygiad ac Awtistiaeth (dim pleidlais)

Clerc y Fforwm

Ymddiheuriadau: Aelod Etholedig CDC
Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr
Cynrychiolydd Ysgolion Cymunedol Uwchradd
Cynrychiolydd Cymunedau Lleol (EY)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Agorodd AR y cyfarfod a chroesawodd y rheiny oedd yno. Nodwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2021

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yn rhai gwir a chywir.

3. Materion yn Codi

Cadarnhaodd JL fod yr ymgynghoriad ar drefniadau derbyn ar gyfer 2022 bellach wedi dod i ben ac ar gael ar y wefan. Rhoddwyd y geiriad pellter diwygiedig i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr.

4. Adolygu Aelodaeth

Cafodd y cyfnod ar gyfer datganiadau o ddiddordeb / enwebiadau ar gyfer swyddi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ei ymestyn am bythefnos.

5. Rownd Dderbyn Flynyddol

Rhoddodd JL grynodedb o'r adroddiad gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol:

- Bodlonwyd yr holl ddyddiadau cynnig cyhoeddedig/statudol, er yr oedd y dyddiad cynnig ar gyfer y Dosbarth Derbyn o fewn cyfnod y cyfnod clo;
- Mae'r Tîm yn parhau i brosesu ceisiadau hwyr a newidiadau o ran dewis yn fisol;
- Crëwyd capasiti ychwanegol yn Ysgolion Basaleg a John Frost i ateb y galw o'r dalgylchoedd;
- Er bod lleoedd ar gael o hyd yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, dim ond 1 o'r 7 ysgol uwchradd Saesneg sydd bellach â lleoedd ar ôl – Ysgol Uwchradd Llanwern;
- Derbyniwyd 45 o apeliadau uwchradd mewn perthynas â'r rownd derbyniadau prydlon. Cadarnhawyd 3 ohonynt ar ran y rhiant. Mae apeliadau dosbarth derbyn yn parhau ar hyn o bryd;
- Crëwyd capasiti ychwanegol hefyd yn Ysgol Gynradd High Cross i ddarparu ar gyfer y galw gan glwstwr Basaleg, ond er gwaethaf hyn, roedd 30 o blant a ddewisodd eu hysgol ddalgylch 'yn brydlon' yn aflwyddiannus; 17 yn Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî a 13 yn Ysgol Gynradd Langstone;
- Cynigiwyd lle i un disgybl yn Ysgol Gynradd Parc y Jiwbilî drwy gamgymeriad; fodd bynnag, ni chafodd unrhyw ddisgyblion eu dadleoli o ganlyniad;
- Mae 266 o leoedd dosbarth derbyn Saesneg ar gael o hyd; 16% o nifer y lleoedd yn nwyrain y ddinas a 6% yn y gorllewin;
- Prin yw'r lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams ac ar y dyddiad cynnig, arhosodd nifer fach yng nghlwstwr ysgolion cynradd catholig;
- Mae lleoedd ar gael o hyd ym mwy na hanner o leoliadau meithrin y Cyngor ar gyfer mis Medi 2021, gan gynnwys 3 o'r 4 meithrinfa Gymraeg.

Cadarnhaodd PB fod Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff hefyd yn llawn. Derbyniwyd 36 o apeliadau gyda 3 yn cael eu cadarnhau o blaid y rhiant. Fodd bynnag, mae'r newid polisi ar gyfer 2021 sy'n ymwneud â'r dalgylch wedi cael effaith gadarnhaol.

Cytunodd yr aelodau o'r fforwm i ychwanegu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yn eitem safonol ar yr agenda. JM i gasglu gwybodaeth ar ran yr ysgolion cynradd gwirfoddol a gynorthwyr.

Cyfeiriodd JB at y sefyllfa uwchradd a gofynnodd a oedd unrhyw gynlluniau i'r dyfodol pe bai hyn yn parhau. Cadarnhaodd DW fod y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos gyda CYBLD a chynllunio strategol.

6. Derbyniadau yn ystod y Flwyddyn

Adroddodd JL ar sefyllfa Tymor y Gwanwyn 2021:

- Derbyniwyd 255 o geisiadau yn ystod tymor y Gwanwyn, ond credir bod y pandemig wedi cael effaith. Derbynnir 1400 o geisiadau ar gyfartaledd bob blwyddyn ac mae nifer y ceisiadau wedi cynyddu'r haf hwn;
- Mae tua hanner (52%) o'r ceisiadau'n parhau i gael eu gwneud oherwydd symud i'r ddinas;
- Bodlonwyd 71% o'r dewisiadau cyntaf, sy'n uwch nag arfer, fodd bynnag, mae hynny'n parhau'n arwydd o gyd-destun y ddinas;
- Proseswyd 96% o'r ceisiadau o fewn amserlenni Llywodraeth Cymru, gyda rhesymau dilys wedi'u cofnodi ar gyfer y rheiny a aeth heibio i'r dyddiad cau;
- Ar 27 Ebrill, roedd y Cyngor â'r lefelau canlynol o leoedd gwag:
 - Lleoedd ysgol gynradd Saesneg - 9%
 - Lleoedd ysgol gynradd Cymraeg - 13%
 - Lleoedd ysgol uwchradd Saesneg - 9%
 - Lleoedd ysgol uwchradd Cymraeg - 29%
- O fewn y clwstwr Catholig, mae 2% o leoedd ysgol gynradd yn wag ac 1% o leoedd ysgol uwchradd yn wag.

- Mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd yng ngheisiadau TAGBC (Tu Allan i Grŵp Blwyddyn Cronolegol) oherwydd colli addysg o ganlyniad i'r pandemig.

Diolchodd JL i glercod yr ysgolion am brofi gwybodaeth yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Cadarnhaodd PB fod gan Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff restrau aros ar gyfer Blynnyddoedd 7, 8 a 9 ar hyn o bryd.

Rhoddodd EK y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am Gynllun Fisa Cenedlaethol Hong Kong. Er ein bod yn parhau i ddisgwyl niferoedd gweddol fawr, hyd yma dim ond 1 teulu sydd wedi ymgartrefu yng Nghasnewydd.

7. Polisi Mynediad Teg

Dosbarthwyd copi o'r Polisi Mynediad Teg drafft ym mis Mawrth a'i rannu hefyd â'r Panel Symudiadau a Reolir. Derbyniwyd adborth a gweithredwyd ar yr adborth ynghylch y geiriad ar grwpiau sy'n agored i niwed.

Bydd y cynllun peilot yn dechrau ym mis Medi ar gyfer ysgolion uwchradd. Bydd ceisiadau'n cael eu monitro ac adroddir arnynt pan fyddant ar waith.

Gofynnodd PB am gamau gweithredu ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff. JL i drefnu cyfarfod ar wahân.

8. Rhaglen ad-drefnu

Rhoddodd DW y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol:

- Mae Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ar y trywydd iawn gyda disgwyl i'r adeilad ar ei newydd wedd gael ei drosglwyddo ym mis Gorffennaf 2021;
- Mae'r galw am yr ysgol newydd wedi bod yn isel ond mae gwaith hyrwyddo'n digwydd;
- Bydd Ysgol Feithrin Casnewydd yn agor ym mis Medi 2021 yn lle'r Ysgolion Meithrin Fairoak a Kimberley cyfunol ac mae pennaeth hefyd wedi'i benodi;
- Yn ystod yr ymgynghoriad ar ehangu Ysgol Basaleg, derbyniwyd gwrthwynebiadau ac felly mae'r penderfyniad terfynol wedi'i gyfeirio at Banel Penderfyniadau Lleol sydd i ddod i ben ddiwedd y mis hwn;
- Mae ymgynghoriad ffurfiol wedi dechrau ar y cynnig i ehangu Ysgol Bryn Derw a bydd yn rhedeg tan 1 Awst 2021;
- Mae'r Cyngor wedi lansio cynnig ar y cyd â chyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Gaer ac Ysgol Gynradd Maesglas i ffedereiddio'r ddwy ysgol dan un corff llywodraethu. Mae cyfnod o ymgynghori ffurfiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid bellach ar y gweill.

9. Unrhyw fater arall

Cyfarfu Grŵp Swyddogion Derbyn i Ysgolion Cymraeg Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru heddiw yn cadarnhau, oherwydd Covid-19, nad oes diweddariad ar ddiwygio'r Cod Derbyn i Ysgolion hyd yma.

Cyfeiriodd JL at yr adroddiad Monitro a Gwerthuso a gyflwynwyd yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm a rhoddodd wybod i'r aelodau y bydd arolwg yn cael ei gyhoeddi dros yr wythnosau nesaf i werthuso effeithiolrwydd y Fforwm Derbyn i Ysgolion.

Rhoddodd EK y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm am y sefyllfa bresennol gyda rhaglen Adsefydlu Dinasyddion Affganistan yn cadarnhau bod disgwyl i 6 theulu gyrraedd yn fuan. Mae ail raglen, sef y rhaglen Ailsefydlu Byd-eang hefyd yn parhau, ond nid yw'n hysbys ar hyn o bryd faint o blant y gallai hyn eu cyflwyno.

10. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

Disgwylir y cyfarfod nesaf ar 16 Tachwedd 2021 a chytunwyd mai ar 15 Mawrth 2022 y byddai cyfarfod tymor y Gwanwyn.